# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Pontsenni

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae pennaeth Ysgol Pontsenni yn arweinydd egnïol a phwrpasol sydd, mewn byr amser, wedi llwyddo i greu cyfeiriad strategol clir i ddatblygiadau'r ysgol. Mae staff a rhanddeiliaid yn cydweithio'n llwyddiannus i wireddu gweledigaeth gytûn sy'n canolbwyntio ar waith tîm a chreu cymuned ofalgar. Mae'r pennaeth yn hyrwyddo diwylliant agored ac yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr sy'n cyfrannu'n gadarn at eu datblygiad personol.

Mae'r broses hunanwerthuso yn rhoi dealltwriaeth glir o'r sefyllfa bresennol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'r  ysgol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio dulliau addysgu effeithiol ac yn cynnwys syniadau'r disgyblion wrth gynllunio gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Er hyn, nid yw staff yn darparu cwricwlwm sy'n sicrhau datblygiad priodol o ran dealltwriaeth a medrau'r disgyblion ym mhob agwedd o'u profiadau dysgu.

Mae ethos Cymreig cryf yn rhan annatod o'r ysgol, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu hyder cynyddol yn eu gallu i siarad Cymraeg yn y ddwy ffrwd. Mae'r staff yn defnyddio dulliau dysgu ymarferol i sicrhau dealltwriaeth o batrymau iaith ac yn darparu gweithgareddau sy'n cefnogi'r disgyblion i werthfawrogi eu milltir sgwâr a'r byd ehangach.

Ar y cyfan, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Serch hyn, nid yw disgwyliadau athrawon bob amser yn ddigon uchel ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw pob disgybl yn cyflawni hyd orau ei allu bob tro.

Mae staff yn rhoi blaenoriaeth uchel i gefnogi lles disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwerthfawrogi eu bod cael cefnogaeth effeithiol sy'n meithrin eu hyder a'u hunan-barch yn dda. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth teilwredig sy'n hwyluso eu cynhwysiant yn y gymuned ddysgu. Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o ran cwrteisi gan y disgyblion sy'n cyfrannu'n gadarn at eu hymddygiad ardderchog ar draws yr ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Codi disgwyliadau athrawon i gefnogi disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu

A2 Datblygu cwricwlwm sy'n cefnogi pob disgybl i gyfoethogi eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau, yn enwedig ysgrifennu, yn adeiladol ar draws y ddwy ffrwd

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2025